# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 13-10 (p5) : 10 Mehefin 2010**

## Cynulliad Cenedlaethol Cymru - Y Pwyllgor Menter a Dysgu Ymchwiliad i Bobl Ifainc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yng Nghymru

### Cefndir

1. Gwahoddwyd Prince's Trust Cymru (PTC) i gyflwyno sylwadau i ymchwiliad Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Bobl Ifainc Nad Ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET).

2. Mae Ymddiriedolaeth y Tywysog yn elusen genedlaethol yn y DU â'r gennad i 'helpu pobl ifainc difreintiedig yn y DU i newid eu bywydau ac i symud i mewn i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.' Mae PTC yn anelu i weithredu mewn cydweithrediad â phartneriaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i drosglwyddo cefnogaeth effeithlon i bobl ifainc NEET sy'n rhan o'n grwpiau targed. Mae'r rhain yn bobl ifainc sydd mewn perygl o fod, neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, yn adawyr gofal, y di-waith a thangyflawnwyr addysgol.

### Ymateb PTC i'r materion sy'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor

Dyma sylwadau PTC ar feysydd cylch gorchwyl y Pwyllgor:

Mater 1 - A yw strategaethau LlCC yn effeithiol wrth sicrhau canlyniadau i bobl ifainc NEET?

3. Ceir tystiolaeth o raglenni effeithiol a mentrau llawn bwriadau da gafodd rywfaint o effaith cadarnhaol ar y broblem pobl ifainc NEET. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae'r rhaglenni a'r mentrau hyn yn niferus, yn gor-gyffwrdd ac yn dueddol o fod yn ddi-drefn. Mae gan LlCC farn strategol gaiff ei chyfathrebu'n gwbl eglur ar lefel Weinidogol ac uwch-swyddogol, ond nid oes digon o adnoddau i sicrhau bod rhaglenni a mentrau'n cael eu cyd-gysylltu a'u teilwra i gyfrannu at y strategaeth.

4. Er enghraifft, pan gyhoeddir cyfleoedd i geisio am ariannu bydd pob darparwr, o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r drydedd sector, yn gweithio yn annibynnol ac mewn cystadleuaeth â'i gilydd i gyflwyno eu ceisiadau. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw ddadansoddiad o'r angen am hyfforddiant ar sail daearyddol sy'n dylanwadu ar y system sgorio, ac o'r herwydd yn aml gwelir gormodedd o ddarpariaeth debyg a ariennir ar gyfer pobl ifainc NEET yn yr un ardal gyda'r trosglwyddo'n digwydd ar yr un pryd. Un profiad diweddar y clywyd amdano oedd yn Sir Benfro gydag ariannu Cyrraedd y Nod Cyngor y Celfyddydau, oedd yn golygu nad oedd digon o bobl ifainc NEET i lanw'r ddarpariaeth i gyd.

5. Tra bo tendro cystadleuol yn lwybr caffael dilys, dylid bod gorfodaeth ar ymgeiswyr i weithio ar y cyd a ffurfio cydweithfeydd neu bartneriaethau ystyrlon. Efallai y gellid mabwysiadu'r agwedd sy'n cael ei defnyddio i ddisodli'r rhaglen Adeiladu Sgiliau, sy'n canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth, ar gyfer ffynonellau ariannu eraill? Yn ogystal, dylid cyfyngu tendro cystadleuol i un lefel, ond os ydym i greu amgylchedd cydweithrediadol.

Mater 2 - A yw cydweithrediad LlCC gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau a Chanolfan Byd Gwaith yn sicrhau ymateb polisi cydlynol i bobl ifainc NEET?

6. Mae hon eto'n ardal ble fo'r blociau yn eu lle ond bod y mortar rhwng y briciau ar goll.

7. Mae Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn enghraifft da o fenter gref allai fod wedi cyfrannu at gyflogaeth cynaliadwy pe bai wedi ei mabwysiadu ar lefel ehangach a mwy strategol. Er enghraifft, cydnabyddodd LlCC y byddai rhaglen cyn-Cronfa Swyddi'r Dyfodol yn cyfoethogi'r cyfle i bobl ifainc ar raglen Cronfa Swyddi'r Dyfodol i lwyddo. Fodd bynnag, nid oedd modd sicrhau bod ariannu ar gael i gefnogi'r agwedd honno.

8. Yn ogystal, mae staff rheng flaen Canolfan Byd Gwaith dan gryn bwysau ac mae ganddynt nifer fawr iawn o gyfleoedd hyfforddiant i'w hystyried wrth benderfynu ar y ffordd orau ymlaen ar gyfer person ifanc. Dydyn ni ddim wedi ein argyhoeddi bod y broses atgyfeirio gystal ac y gallai fod a bod pobl ifainc yn colli cyfleoedd i gael eu cyfeirio at yr asiantaeth briodol (yn cynnwys darpariaeth wladol a gwirfoddol).

9. Mae rhaglenni fel y Warant i Bobl Ifanc yn llawn bwriadau da, ond maent yn fwy o eiriau nac o effaith oherwydd y diffyg swyddi sydd ar gael a'r anhawster gaiff pobl ifainc NEET mewn gwirionedd i gael mynediad iddynt.

10. Mae'n anos awgrymu ateb i hyn gan ei bod yn annhebygol y caiff mwy o adnoddau rheng flaen eu clustnodi ar gyfer Canolfannau Gwaith. Byddai cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cadw Canolfan Byd Gwaith wedi eu diweddaru ynghylch darpariaeth, a'r gwaith sydd ynghlwm â hynny, yn gallu cael ei adlewyrchu'n well mewn ceisiadau ariannu.

Mater 3 - I ba raddau mae strategaeth cyflogaeth a datblygiad economaidd LlCC yn mynd i'r afael â phobl ifainc NEET?

11. Nid oes modd inni wneud unrhyw sylwadau ar hyn gan nad ydym wedi gweld llawer o'r rhaglen adfywio. Ond cafodd Cyfarwyddwr PTC, Rick Libbey, ei gyfweld ar y mater a mynegodd rywfaint o syniadau ynghylch cynnwys pobl ifainc yn yr agwedd hon. Er enghraifft, ysgogi'r sector preifat i gynnwys nifer penodol o 'swyddi cychwynnol' i helpu pobl ifainc i symud i mewn i waith.

Mater 4 - Pa gamau penodol mae LlCC yn eu cymryd ar ran pobl ifainc sydd mewn mwyaf o berygl o fod yn NEET a grwpiau bregus penodol?

12. Mae ystod o wahanol raglenni'n bodoli ond, fel yn ein ymateb i'r mater cyntaf, dyw'r rhain ddim yn cael eu cydlynu gystal ag y gellid.

Mater 5 - Statws CGE ar gyfer trosglwyddo polisi NEET?

13. Mae'r ffaith bod CGE ar gael efallai'n fodd y gallwn ni yma yng Nghymru lywio ein ffordd trwy gyfyngiadau ariannol dwys yn y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r broses o ymgeisio am ariannu'n un gymhleth sy'n cymryd llawer o amser, fel yr amlinellwyd mewn ymateb i'r mater cyntaf.

Mater 6 - Effeithlonrwydd partneriaethau / gweithio ar y cyd wrth fynd i'r afael â phobl ifainc NEET?

14. Mae hwn yn faes sydd angen ei wella'n sylweddol, fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i'r mater cyntaf.

Mater 7 - Oblygiadau Adolygiad LlCC o Wasanaethau Gyrfaoedd ar bolisïau NEET

15. Wyddom ni fawr ddim am hyn, ar wahân i'r ffaith bod Gyrfa Cymru i gael ei droi'n un endid yn hytrach na 6 chorff ar wahân.

16. Mae'r materion y byddwn yn eu wynebu wrth weithio gyda Gyrfa Cymru yn adlewyrchu'r rheini a amlinellwyd yn ein ymateb i'r ail fater.